

Defnyddio stiliwr torri radioamledd i gymryd sampl i wneud prawf am ganser y fron

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio stiliwr torri radioamledd yn y GIG i gymryd sampl i wneud prawf am ganser y fron mewn pobl a lympiau yn y fron. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn am nad oes llawer o wybodaeth hyd yn hyn am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio lympiau yn y fron na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu

gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 8.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Mae pryderon hefyd am y posibilrwydd o ganlyniadau profion yn dangos yn anghywir nad oes canser y fron ar y claf.

Os yw meddyg am ddefnyddio stiliwr torri radioamledd i gymryd sampl o unigolyn â lwmp yn y fron, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio, ynghyd â'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â risgiau posibl y driniaeth wella. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylai'r claf gael y daflen hon ac unrhyw wybodaeth ysgrifenedig arall fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Mae NICE wedi annog gwaith ymchwil pellach i stiliwr torri radioamledd ac efallai y bydd yn adolygu'r driniaeth os bydd rhagor o dystiolaeth ar gael.

*Efallai nad hon fydd
yr unig ddull posibl
ar gyfer cymryd
sampl o lwmp yn y
frest.*

*Dylai eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch*

*p'un a yw'n addas i
chi a pha opsiynau
eraill sydd ar gael.*

Stilwyr torri radioamledd ar gyfer cymryd samplau i wneud prawf am ganser y fron

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'biopsi trychol radioamledd wedi'i lywio gan ddelweddau'. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch meddyg i gael disgrifiad llawn.

Efallai y bydd angen cynnal profion canser ar lwmp neu bentwr a ddarganfyddir yn y fron. Gellir defnyddio stiliwr torri radioamledd i dynnu peth o'r lwmp neu'r lwmp i gyd ac ychydig o'r meinwe o'i amgylch.

Rhoddir anesthetig lleol a gwneir toriad bach (tua 6 i 8 mm) yn y frest er mwyn gosod y stiliwr. Mae gan y stiliwr bwynt torri sy'n defnyddio ynni radioamledd i dorri'r lwmp allan. Gellir tynnu'r lwmp a chynnal profion arno i ddarganfod a yw'n ganseraidd ai peidio.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig samplu stiliwr radioamledd i chi ar gyfer profi am ganser y fron, dylai ddweud wrthyfch fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau'n ansicr a bod posibilrwydd o ganlyniad anghywir i'r prawf. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 2 astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth a edrychodd ar 742 o lymphiau yn y fron, credwyd nad oedd 34 yn ganser (a elwir hefyd yn anfalaen) ar ôl samplu gan ddefnyddio stiliwr torri radioamledd. Yna cafodd y cleifion lawdriniaeth i dynnu'r lymphiau a'u harchwilio ymhellach. Canfuwyd y gwnaed diagnosis anghywir ar dri o'r lymphiau hyn ac roeddent, mewn gwirionedd, yn ganseraidd. Yn yr un astudiaeth, credwyd bod celloedd cancer cynnar iawn mewn 119 o lymphiau (a elwir carsinoma dwythellol in situ) ar ôl iddynt gael eu tynnu gan ddefnyddio stiliwr torri radioamledd. Fodd bynnag, darganfyddwyd bod math mwy difrifol o gell cancer ymledol yn bresennol mewn 6 o'r rhain (a elwir yn garsinoma dwythellol ymledol).

Mewn astudiaeth o 100 o gleifion â 106 o lymphiau ar y fron a gredwyd nad oedd yn ganser ar ôl cael sgan delweddu, ac yna'u tynnu gan ddefnyddio stiliwr torri radioamledd, ni ddangosodd 93% arwydd (drwy archwilio neu drwy sganio) o unrhyw lwmp yn parhau i fod yno rhwng 4 a 6 mis yn ddiweddarach.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai nod y driniaeth hon, pan gaiff ei defnyddio ar gyfer lymphiau nad yw'n ganser, yw tynnu'r lymphiau yn llwyr a sicrhau bod golwg y fron ar ôl ei thynnu yn foddhaol i'r claf. Dywedodd y cynghorwyr hefyd mai ffactorau llwyddiant y driniaeth, pan gaiff ei defnyddio ar gyfer cleifion yr amheuir bod ganddynt ganser y fron cynnar, oedd tynnu sampl digonol ar gyfer

Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 198

cynnal profion, cyfradd goroesi a ph'un a oedd canser y fron yn dychwelyd.

Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth o 742 o lympiau a dynnwyd gan stiliwr torri radioamledd, dim ond 1 claf a ddatblygodd haint. Cafodd yr haint ei wella gan dabledi gwrthfotig.

Yn yr astudiaeth o 100 o gleifion, dywedodd y rhan fwyaf bod lefel y boen a deimlwyd yn ystod y driniaeth yn isel, gan roi sgôr o lai na 1 pwynt ar raddfa o 0 am ddim poen i 10 am boen difrifol. O'r triniaethau hyn, dim ond 2 allan o 106 o lympiau a dynnwyd a achosodd waedu.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod cleisio, haint, llosgiadau croen a methu cael sampl yn gymhlethdodau posibl. Yn ddamcaniaethol, gallai problemau eraill gynnwys lledaenu (neu 'hadu') celloedd tiwmor ar hyd llwybr y stiliwr, gwaedu, poen dros dro a niwed i gelloedd braster oherwydd gwres.

Rhagor o wybodaeth am lymphiau yn y fron

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi.

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon am 'Biopsi trychol radioamledd wedi'i lywio gan ddelweddau ar gyfer briwiau yn y fron'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/HTG198

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8073-4

N1952 1P Jul 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.